



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Fframwaith Cynllunio ar gyfer Olyniaeth

CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a
Llyfrgelloedd Cymru

Defnyddio'r fframwaith

Nod y fframwaith hwn yw helpu gwasanaethau amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau i ystyried a dechrau mynd i'r afael ag ystyriaethau cynllunio ar gyfer olyniaeth, gan flaenoriaethu'r materion hyn, yn eu sefydliadau eu hunain. Mae'n cynnig templed i ddadansoddi ac asesu'r sefyllfa bresennol a thempled o gynllun gweithredu i'w ddefnyddio at y dyfodol.

Beth yw cynllunio ar gyfer olyniaeth?

Term byd busnes yw cynllunio ar gyfer olyniaeth a gall olygu gwahanol bethau mewn gwahanol gyd-destunau. Fe'i defnyddir yn aml mewn sefydliadau mawr i gyfeirio at gynllunio ar gyfer parhad mewn arweinyddiaeth os bydd y Prif Weithredwr neu Gadeirydd y Bwrdd yn gadael. Mae'n berthnasol i amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau hefyd ond mewn modd sy'n cyd-fynd yn ehangach â'n busnesau. Maent yn sefydliadau hirdymor, felly mae'n bwysig edrych yn y tymor hir ar yr hyn sy'n angenrheidiol i sicrhau eu bod yn parhau i redeg yn effeithiol.

Mae Safon Achredu Amgueddfeydd 2011 yn diffinio "gweithdrefnau olyniaeth" yn yr eirfa fel

"cyfres gytunedig o brosesau i sicrhau cysondeb ac atebolrwydd y busnes trwy newidiadau ymhlith arweinwyr neu aelodau allweddol o'r gweithlu."

Yr elfennau mwyaf buddiol i unrhyw amgueddfa, llyfrgell neu archifdy ganolbwyntio arnynt yw'r rhai sy'n ymwneud â

- sicrhau parhad mewn busnes (h.y. parhau i fod ar agor ac i ddarparu eich gwasanaethau)
- pan fo newid yn y gweithlu (h.y. Ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr)

Gallai fod yn haws edrych ar hyn yn nhermau

Pobl

Pa rolau a sgiliau sy'n hanfodol er mwyn i'ch sefydliad allu parhau i weithredu a darparu ei wasanaethau?

Gwybodaeth

Pa wybodaeth sy'n angenrheidiol iddi barhau yn eich sefydliad er mwyn iddo allu parhau i weithredu a darparu ei wasanaethau?

Pam trafferthu â chynllunio ar gyfer olyniaeth?

Mae newidiadau yn y gweithlu yn anochel mewn unrhyw sefydliad. Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth yn ffordd dda o sicrhau fod pethau'n rhedeg mor llyfn ag y bo modd pan fo hynny'n digwydd.

Mae'r Cynllun Achredu Amgueddfeydd a'r Cynllun Achredu Gwasanaethau Amgueddfeydd yn cynnwys gofynion yng nghyswllt cynllunio ar gyfer olyniaeth:

- 1.3.4 *Bod gweithdrefnau olyniaeth yn ddigonol i sicrhau atebolrwydd a pharhad y busnes.*
- 1.6 **Adnoddau: gweithlu.** Yn y gofyniad hwn, ceisir asesu p'un a yw'r gweithlu sydd ar gael i'r gwasanaeth archifau yn briodol, wedi'i reoli'n dda ac yn cael cynnig digon o gyfleoedd i ddatblygu. Cyfeiria'r canllawiau'n benodol yn y fan hon at Gynllunio ar gyfer Olyniaeth fel y man lle gellir dod o hyd i dystiolaeth ar gyfer y gofyniad hwn.

Mae'n amhosib paratoi ar gyfer pob posibilrwydd ond gall hyd yn oed ychydig o gynllunio a meddwl ymlaen llaw gryfhau eich sefydliad yn sylweddol pan fo'n wynebu newidiadau i'r gweithlu. Gall fod yn rhan bwysig o ddull unrhyw sefydliad o leihau'r risgiau a wyneba.

Cwestiynau i'w hystyried...

- Sut y byddai eich sefydliad yn parhau pe bai grŵp o weithwyr yn ennill y loteri ac yn penderfynu gadael ar fyr rybudd?

Os ydych chi'n gweithio ar eich pen eich hun...

- Sut y byddai eich sefydliad yn parhau pe baech chi yn ennill y loteri ac yn penderfynu gadael ar fyr rybudd?

Ac hyd yn oed pe bai pawb yn gweithio drwy eu cyfnodau rhybudd...

- I ba raddau y mae'ch sefydliad chi wedi paratoi ar gyfer gallu parhau drwy newid sylweddol yn y gweithlu?

Pethau eraill i'w hystyried...

- Lle/sut ydych chi'n cadw gwybodaeth hollbwysig? A yw'n ddiogel?
A yw mewn perygl oherwydd yr amgylchedd? A yw'r wybodaeth yn hygyrch?
- Beth fydd yn digwydd i gofnodion eich sefydliad os bydd rhaid i chi gau?

Mae'r templed cynllunio a rhestr wirio ar gael fel dogfen ar wahân i chi lawrlwytho a llenwi. Gweler yr adran adnoddau ar wefan CyMAL: www.cymru.gov.uk/cymal

Adnoddau pellach

Association of Independent Museums Success Guides (Saesneg yn Unig)

www.aim-museums.co.uk/content/success_guides

Museums Association "Capturing Collections Knowledge" (Saesneg yn Unig)

www.museumsassociation.org/download?id=55536

Collections Link (Saesneg yn Unig)

Includes resources on collections information and copyright

www.collectionslink.org.uk

HMRC Record Keeping factsheet (Saesneg yn Unig)

www.hmrc.gov.uk/factsheet/record-keeping.pdf

DCMS Business Continuity Planning for Museums & Galleries (Saesneg yn Unig)

www.gov.uk/business-continuity-planning-for-museums-and-galleries#benefits-of-business-continuity-planning

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (Saesneg yn Unig)

www.hse.gov.uk

Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd (Saesneg yn Unig)

www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service

www.wcva-cru.org.uk/1/cy-GB/Hafan

Data Protection Act Principles (Saesneg yn Unig)

www.ico.org.uk/for_organisations/data_protection/the_guide/the_principles